

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Mehefin 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, A.S. Johnson, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, Ms. V. Roberts. a Miss C.L. Williams,

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Hefyd yn bresennol (yn arsylwi) y Cynghorwyr B. Jones a T. Thomas

4. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr B. Blakeley (ymrwymiad arall), Mrs. J. Butterfield (ymrwymiad teuluol), Mrs. J. Chamberlain-Jones (yn sâl), Mrs. J. Hughes (yn sâl), K.R. Jones, (ymrwymiad gwaith), B. Mellor (ymrwymiad arall) ac A.J. Rutherford (ar wyliau)

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1	<p><u>LLEOLIAD SAFLE</u> Uned 6 (Poundworld) Parc Manwerthu Cei Marina, Ffordd Wellington, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Butterfield, A. James</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0351</p> <p>Arddangos 2 arwydd ffasgia gyda golau mewnol,</p> <p>Yr ymgeiswyr yw Poundworld Retail Limited, Poundworld House, Premier Way North, Normanton Industrial Estate, Normanton, WF6 1GY</p> <p><u>PENDERFYNIAD BLAENOROL:</u> Gwrthwynebu – mae'r cais yn groes i Bolisi RD5 y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd sy'n nodi:</p> <p><i>“Bydd disgwyl i ddatblygwyr ddarparu arwyddion dwyieithog fel dull lleiaf o hyrwyddo'r iaith Gymraeg”.</i></p> <p>A hefyd Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Tref y Rhyl (gweler Nodyn 1 uchod).</p>
-----	---

	<p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Gwrthwynebu - tra'n croesawu'r newidiadau i'r arwydd, mae'r Cyngor yn bryderus y dylai'r arwyddion Cymraeg a Saesneg fod o faint cyfartal.</i></p>
5.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> 39 Rhuddlan Road, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain Jones, Mrs. E. Chard, Miss E. Jones</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0533</p> <p>Adeiladu estyniad i dŷ annedd.</p> <p>Yr ymgeiswyr yw Mr. Steve Parry a Mrs Anne Roberts o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
5.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> Cartref Preswyl St. David's, 36 Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> K.R. Jones, T. Thomas</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0507</p> <p>Amrywio Amod Rhif 1 Côd Cynllunio rhif 45/2011/0572 a ganiatawyd dan apêl i roddi estyniad amser i ddechrau ar y datblygiad.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr. David Waltho, o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>

6. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: